



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

2 Cronicl 28: 1-14 Oded yn achub y caethion



- 1 Roedd Ahas (735-715 CC) yn 20 oed pan ddaeth yn frenin. Ond wnaeth e ddim plesio'r ARGLWYDD. Gwnaeth ddelwau metel o dduwiau Baal, aberthu iddyn nhw, a llosgi ei fab yn aberth — arferiad cwbl ffiائد. Roedd gwledydd eraill yn dilyn ei esiampl wael.



- 2 Roedd yr Iddewon wedi eu rhannu yn ddwy wlad. Roedd y Brenin Ahas yn arwain yn y De (Jwda) tra fod y Brenin Pecach yn rheoli yn y Gogledd (Israel). Mae'r Beibl yn dweud fod Ahas a Pecach yn frenhinoedd drwg. Doedden nhw ddim yn plesio Duw.



- 3 Ymunodd Pecach gyda Brenin Syria (Aram) i ymosod ar Jwda, ac i frwydro yn erbyn Ahas. Am fod Ahas yn frenin drwg nid oedd Duw ar ei ochr.



-
- 4 Lladwyd 120,000 o filwyr Jwda mewn un diwrnod gan fyddin Pecach, brenin Israel.




-
- 5 Roedd Sichri, un o arwyr Effraim, wedi lladd Maaseia mab y brenin Ahas, Asricam prif swyddog y palas, ac Elcana y swyddog uchaf yn y deyrnas ar ôl y brenin ei hun.



-
- 6 Roedd Ahas yn dal yn fyw ar ddiwedd y frwydr. Cafodd llawer o'r bobl eu cymryd yn gaeth i Damascus.



-
- 7 Cymerodd yr Israeliaid 200,000 o bobl yn gaeth - gwragedd a phlant. Ac roedden nhw wedi dwyn lot fawr o bethau gwerthfawr hefyd a mynd â'r cwbl yn ôl i Samaria.



-
- 8 Doedd dim ots gan y milwyr fod y caethion yn Iddewon fel nhw. Roedd byddin Israel am eu gwerthu fel caethweision yn Samaria. Roedden nhw hefyd am ddwyn eu trysorau a'u hanifeiliaid.



-
- 9 Gorfodwyd y gwagedd a'r plant i gerdded i'r Gogledd.



-
- 10 Roedd llawer ohonyn nhw yn hen a gwan. Roedd llawer ohonyn nhw yn brin o fwyd, heb ddillad ac heb esgidiau.



-
- 11 Ar eu taith i'r Gogledd roedd rhaid iddyn nhw gerdded drwy dir Effraim.



-
- 12 Er fod dynion o lwyth Effraim wedi ymladd yn y frwydr, pan welon nhw wragedd a phlant yn cael eu trin mor wael, roedden nhw'n gwybod bod rhywbeth mawr o'i le.



-
- 13 Roedd yna broffwyd i'r ARGLWYDD o'r enw Oded yn Samaria. Dyma fe'n mynd i gyfarfod y fyddin wrth iddyn nhw gyrraedd y ddinas.



-
- 14 “Gwrandwch. Roedd yr ARGLWYDD wedi digio gyda Jwda, a gadawodd i chi eu trechu nhw. Ond dych chi wedi mynd dros ben llestri, a lladd yn gwbl ddirugaredd, ac mae Duw wedi sylwi.




-
- 15 A dyma chi nawr yn bwriadu gorfodi pobl Jwda a Jerwsalem i fod yn gaethweision a caethforynion i chi. Ydych chi hefyd ddim wedi gwneud drwg yng ngolwg yr ARGLWYDD eich Duw? Gwrandwch arna i. Anfonwch y rhai dych chi wedi eu cymryd yn gaeth yn ôl adre. Mae'r ARGLWYDD wedi gwylltio gyda chi.”



-
- 16 Yna dyma rai o arweinwyr Effraim sef Asareia, Berecheia, lechisceia ac Amasa yn mynd i wynebu'r rhai oedd wedi dod yn ôl o'r frwydr. Roedden nhw'n cefnogi Oded.



-
- 17 Dyma nhw'n dweud wrthyn nhw, “Gewch chi ddim dod â'r bobl gymeroch chi'n gaethion yma, i'n gwneud ni'n euog hefyd. Mae'r ARGLWYDD wedi digio gydag Israel fel y mae hi, heb fynd i wneud pethau'n waeth.”




-
- 18 Felly o flaen yr arweinwyr a phawb dyma'r milwyr yn rhyddhau'r bobl oedd wedi eu cymryd yn gaeth, a rhoi popeth roedden nhw wedi ei gymryd yn ysbail yn ôl.



-
- 19 Dyma nhw'n ffeindio dillad o'r ysbail i'r rhai oedd yn noeth eu gwisgo, rhoi sandalau, bwyd a diod iddyn nhw, ac olew i'w rwbio ar eu croen.



-
- 20 Yna dyma nhw'n rhoi pawb oedd yn methu cerdded ar asynnod, a mynd â nhw i gyd yn ôl at eu perthnasau i Jericho, dinas y palmwydd.



-
- 21 Aeth y gwragedd a'r plant yn ôl adre i Jwda. Wedyn dyma'r milwyr yn mynd yn ôl adre i Samaria.



-
- 22 Am fod Oded, y proffwyd dewr, wedi rhannu neges Duw gyda'r milwyr fe achubwyd 200,000 o wragedd a phlant o gaethwasiaeth.



-
- 23 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
